# Cau Cysylltiadau Tir Comin

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lansiwyd y prosiect CPH yn 2016 ac mae dros 11,000 o CPHau yn cael eu cynnal gan ddefnyddio Rheoli fy CPH a'r rheolau CPH newydd.

Bydd cam nesaf y prosect yn canolbwyntio ar Gysylltiadau Tir Comin. Nid yw Cysylltiadau Tir Comin yn cyd-fynd â'r rheolau CPH newydd ac o'r herwydd, rhaid i geidwaid gofnodi'r gwybodaeth am eu tir, gan gynnwys tir comin, ar Rheoli fy CPH.

Bydd hyn yn golygu y bydd pob daliad sydd â mynediad i dir comin yn gweithredu dan y rheolau CPH newydd unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, sy'n cynnwys cyflwyno rheol 10 milltir ar gyfer pob rhywogaeth a phob daliad. Mae rhagor o wybodaeth am y rheolau CPH a'r prosiect CPH i'w gweld ar www.llyw.cymru/rhifau-adnabod-daliadau-cph-a-symudiadau-da-byw.

## Beth sydd angen ichi ei wneud?

Os nad ydych wedi mapio'ch daliad yn barod nac wedi gorffen trosglwyddo i Rheoli fy CPH, dylech gofnodi manylion y tir yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer da byw ar Rheoli fy CPH ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

Bydd y broses hon yn dangos a yw'ch daliad yn gyffiniol â'r tir comin ai peidio, ar sail lleoliad eich Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL). Os oes ffordd neu nant yn gwahanu'ch daliad oddi wrth y tir comin, mae'n bosibl y gallwch ei gynnwys o fewn eich CPH.  Cysylltwch â Chanolfan Cyswllt Cwsmeriaid RPW gyda manylion y tir comin yr ydych am ei ychwanegu a caiff eich achos ei adolygu.

Os ydych wedi gorffen trosglwyddo i Rheoli fy CPH, nid oes angen ichi wneud unrhyw beth a rhaid i chi barhau i weithredu dan y rheolau CPH newydd.

## Sut bydd yn effeithio ar y ffordd y byddaf yn rhoi gwybod am symudiadau?

Bydd sut y byddwch yn rhoi gwybod am symudiadau i ac o dir comin yn dibynnu a yw'r tir comin yn ffinio â'ch Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) ai peidio.

Os yw'r tir comin yn ffinio â'ch PPL, ni fydd angen ichi roi gwybod am symudiadau i ac o'r tir comin. Pan fydd anifeiliaid yn dod yn ôl o'r tir comin, bydd cyfnod gwahardd symud yn dod i rym ar gyfer symudiadau i unrhyw le heblaw yn ôl i'r tir comin.

Os nad yw'r tir comin yn ffinio â'ch PPL, bydd angen ichi roi gwybod am symudiadau drwy ddefnyddio'r rhif CPH ar wahân ar gyfer y tir comin. Bydd y rheolau ar wahardd symud ac ar brofi cyn symud yn dal yn gymwys.

## Pa gymorth sydd ar gael?

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r broses fapio, gallwch gysylltu â'r Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid drwy ddefnyddio eich cyfrif RPW neu drwy ffonio 0300 062 5004.



OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG39538